

## Cwestiynau Pwy?

Bydd deall a gallu ateb cwestiynau Pwy? yn helpu eich plentyn i gasglu a rhannu gwybodaeth.



Dyma awgrymiadau...



Deall cwestiwn Pwy?



Rhoi dewis



Defnyddio lluniau neu bethau bob dydd



Rhoi cliwiau



Dyfalu



Cyfathrebu a Rhyngweithio / Communication and Interaction




## Deall cwestiwn Pwy?




Mae gwybod pryd a sut fath o gwestiynau Pwy? i'w gofyn i'ch plentyn yn bwysig. Ar ôl i chi ddysgu hyn, ceisiwch ofyn cwestiynau Pwy? wrth sgwrsio, chwarae neu ddarllen stori.



Er mwyn helpu eich plentyn i ddeall a chofio'r gair pwy, gallwch wneud yr arwydd Makaton i gyd-fynd â'r gair. I wneud hyn pwyntiwch eich bys at y to a'i droi.



Edrychwch ar unrhyw luniau efo'ch plentyn, a gofynnwch...




**Pwy** sydd ar y ddeilen?





**Pwy** sydd yn y fased?

## Rhoi dewis

Defnyddiwch lun sydd gennch yn barod, llun oddi ar y we neu lyfr stori er mwyn gofyn cwestiynau Pwy?  
Er mwyn gallu ateb yn gywir mae'n rhaid i'ch plentyn wrando'n ofalus a deall y cwestiwn.



Hogan, Hogyn, Dyn, Dynes



Cyn gofyn y cwestiynau, trafodwch y llun â'ch plentyn er mwyn gwneud yn siŵr ei fod / ei bod yn deall beth ydi'r atebion posib.

Dyma'r math o gwestiynau y gallwch eu gofyn:

- **Pwy** sydd yn y canol?
- **Pwy** sydd yn gwisgo shorts pinc?
- **Pwy** sydd yn cael ei chario?
- **Pwy** sydd yn rhoi ei llaw ar ei phen?

## Defnyddio lluniau neu bethau bob dydd

Gofynnwch gwestiynau sy'n gwneud i'ch plentyn feddwl h.y. nad ydi o / hi yn 'gweld' yr ateb. Defnyddiwch bethau bob dydd neu luniau i wneud hyn a gofynnwch gwestiynau am bwy sy'n byw yn rhywle neu pwy sy'n defnyddio, gwisgo neu wneud pethau.




**Pwy** sy'n byw mewn nyth?



**Pwy** sy'n defnyddio til?



**Pwy** sy'n gwisgo tennyn?





**Pwy** sy'n danfon llythyrau ?





## Rhoi cliwiau

Meddyliwch am berson neu anifail ond peidiwch â dweud pwy. Rhowch gliwiau i'ch plentyn er mwyn iddo / iddi fedru dyfalu pwy yr ydych yn ei ddisgrifio e.e. "Rydw i'n cario sach, rydw i'n teithio yn y nos, rydw i'n gwisgo welingtons du a rydw i'n rhoi anrhegion. **Pwy** ydw i?"



Gallwch wneud hyn ar lafar, ond i ddechrau, efallai y byddai'n haws i'ch plentyn weld y cliwiau. Er mwyn gwneud hyn does dim rhaid i chi ddefnyddio lluniau arbennig, yn hytrach gwnewch rhai...a does dim rhaid iddyn nhw fod yn dda!

## Dyfalu



Chwaraewch gêm tebyg i HEDBANZ gan ddysgu eich plentyn i ofyn cwestiynau er mwyn dyfalu pwy ydi o / hi.



Gall pwy ydi eich plentyn fod yn gymeriad ar y teledu, yn anifail, yn weithiwr neu'n rhywun yr ydych yn ei adnabod.



Cwestiynau y gall eich plentyn eu gofyn wrth geisio dyfalu pwy ydi o / hi.



Ydw i ar y teledu / yn anifail / yn weithiwr / yn rhywun yr ydw i'n ei adnabod?

Lle ydw i yn byw / gweithio?

Beth ydw i yn hoffi ei wneud?